

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 27AIN O ORFFENNAF 2015 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Barri Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Hywel Davies, Iwan Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Stan Williams, Gwennan Hughes, Elfed Williams a Falmai Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Fehefin 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â materion ffyrdd y gymuned a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

4. CYLLID.

A, Datganiad Banc - £16,225.00.

B. Taliad Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.

C. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Bwyllgor Rheoli'r Adnoddau Cymunedol Llanrhaeadr tuag at gostau'r yswiriant ac offer chwarae newydd. Penderfynwyd yr aelodau i gyfrannu £1,500.00 i'r mudiad.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn am bris arwyddion "Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch" gan Gyngor Sir Ddinbych.

E. Penderfynwyd yr aelodau, ar ôl adroddiad y Cynghorydd Jill Evans, i gael lloches bws "Arun Cantilever" gan Queensbury Shelters i'r safle yn Saron. Cyn archebu'r lloches penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i'r cwmni am faint y sylfaen a'r dyfnder. Cytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch i ofyn i'r Cyngor Sir i gadarnhau bod caniatâd yn bodoli i adeiladu'r lloches.

F. Penderfynwyd yr aelodau i ychwanegu enw Cynghorydd Philip Williams ar "Mandate" Banc y Cyngor

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio am is-orsaf trydan a gwaith cysylltiedig yng Nghoedwigaeth Clocaenog yn Saron.

B. Manylion gwelliant i'r cais cynllunio a dderbyniwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor yn Eglwys Prion i ddwy uned gwyliau yn lle ddwy uned breswyl. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i gefnogi'r cais.

C. Cytunodd y Cynghorydd Iona Edwards-Jones i ysgrifennu'r sylwadau'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais cynllunio a dderbyniwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor am Fferm Wynt ar dir i'r dwyrain o Lŷn Brenig yn Nantglyn.

D. Derbyniwyd cais cynllunio am adeilad allforio trydan o Fferm Wynt Nant Bach yng Nghoedwigaeth Clocaenog yn Saron. Cytunodd y Cynghorydd Iona Edwards-Jones i ysgrifennu'r sylwadau'r Cyngor i wrthwynebu'r cais cynllunio.

E. Cytunodd y Cynghorydd Iona Edwards-Jones i fynychu'r Cyfarfod Cyhoeddus "Cysylltiad Ffermydd Wynt Gogledd Cymru" a threfnwyd gan Yr Arolygiaeth Gynllunio i dderbyn gwybodaeth ar amserlen y cais cynllunio ar ddydd Mawrth 28ain o Orffennaf 2015 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 10.00 y bore.

## 6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Cynghorydd Iona Edwards-Jones ei fod wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus Carwyn Jones, Prif Weinidog Cynulliad Cymru, yn Neuadd y Dref, Rhyl ar 22ain o Orffennaf.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r canlynol:-

1. Mae'r casglwyr biniau yn gadael rhai o'r biniau mewn llefydd peryglus yn ardal Saron/Prion/Peniel.

2. Mae angen tynnu'r glaswellt o'r ffens diogelwch ffyrdd y Cyngor yn ardaloedd Prion a Saron.

3. Ail rhoi enw Prion a Saron ar yr arwydd cyfrifyddol Cyngor Sir Ddinbych ar y groesffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion.

4. Mae'r gwastraff dwr budur yn dal i ddwâd i'r ffordd o'r Tŷ'r Ysgol Pant Pastynog ym Mhrion.

B. Cytunodd y Cynghorydd Jill Evans i gysylltu gyda Mr Tim Towers o Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar wyneb y ffordd heibio'r Fron, Prion.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 28ain o Fedi 2015 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.